



Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

Trydydd Cam Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar:

Ganllawiau i gefnogi

Gorchymyn Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio
a Chompostio (Diffiniadau) (Cymru) 2011

Rheoliadau 4 a 5 Rheoliadau Targedau Ailgylchu,
Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Monitro a
Chosbau) (Cymru) 2011

A wnaed yn unol â Mesur Gwastraff (Cymru) 2010.

Dyddiad cyhoeddi: **26 Awst 2013**

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **4 Hydref 2013**

Trosolwg

Mae Gorchymyn Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Diffiniadau) (Cymru) 2011 ("y Gorchymyn") yn diffinio ailgylchu, paratoi i ailddefnyddio a chompostio at ddibenion y targedau a nodwyd yn adran 3 Mesur Gwastraff (Cymru) 2010.

Mae Rheoliadau Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Monitro a Chosbau) (Cymru) 2011 ("y Rheoliadau") yn esbonio sut yr eir ati i fonitro cydymffurfiaid â thargedau ac mae'n nodi'r drefn gosbi pan na lwyddir i gydymffurfio.

Paratoir y Canllawiau o dan adran 7 Mesur Gwastraff (Cymru) 2010 ac mae'n cefnogi'r diffiniadau sydd yn y Gorchymyn a'r drefn fonitro a osodwyd yn unol â rheoliadau 4 a 5 y Rheoliadau.

Mae trydydd cam yr ymgynghoriad yn ceisio sylwadau terfynol am y Canllawiau drafft.

Sut i ymateb

Dylid anfon ymatebion i'r ymgynghoriad hwn ar bapur at:

Russell Owens
Swyddog Strategaeth Gwastraff
Cangen Strategaeth Gwastraff
Is-adran Effeithlonrwydd Gwastraff ac Adnoddau
Llywodraeth Cymru
Llawr 3, Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ

Neu drwy wefan Strategaeth Gwastraff
Llywodraeth Cymru: WasteStrategy@Wales.Gsi.Gov.Uk

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnwys:

Canllawiau Drafft i gefnogi Gorchymyn Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Diffiniadau) (Cymru) 2011 a Rheoliadau 4 a 5 Rheoliadau Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Monitro a Chosbau) (Cymru) 2011.

Manylion cysylltu

I gael rhagor o wybodaeth:

Russell Owens
Swyddog Strategaeth Gwastraff
Cangen Strategaeth Gwastraff
Is-adran Effeithlonrwydd Gwastraff ac Adnoddau
Llywodraeth Cymru
Llawr 3, Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ
E-bost: Russell.owens@environment-agency.wales.gov.uk
Ffôn: 029 2046 8894

Diogelu data

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, ticiwch y blwch isod. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

CYFLWYNIAD:

Mae'r ddogfen hon yn drydydd cam yr ymgynghoriad ar:

Ganllawiau i gefnogi:

Gorchymyn Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio

(Diffiniadau) (Cymru) 2011

Rheoliadau 4 a 5 Rheoliadau Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Monitro a Chosbau) (Cymru) 2011

A wnaed yn unol â Mesur Gwastraff (Cymru) 2010.

Dyma gam olaf y broses ymgynghori a gychwynnodd yn ffurfiol ar 1^{af} Rhagfyr 2010 gyda'r ymgynghoriad (WAG10-10743):

Mesur Gwastraff (Cymru) 2010

Gorchymyn drafft Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Diffiniadau) (Cymru) 2011

Rheoliadau drafft Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Monitro a Chosbau) (Cymru) 2011

ac a aeth ymlaen wedyn at ail gam yr ymgynghoriad (WG14470):

Canllawiau Drafft i gefnogi

Gorchymyn Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio

(Diffiniadau) (Cymru) 2011

Rheoliadau 4 a 5 Rheoliadau Targedau Ailgylchu, Paratoi i Ailddefnyddio a Chompostio (Monitro a Chosbau) (Cymru) 2011

A wnaed yn unol â Mesur Gwastraff (Cymru) 2010

ac

Ymgynghoriad ar faterion yn effeithio ar ddad-ddyfrio, dosrannu cyfraddau ailgylchu o broses treulio anaerobig, compostio ac ailgylchu llwch gwaelod llosgydd.

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn hanfodol bod yr ymgynghoriad ar ddogfennau'r Canllawiau a baratoir i gefnogi'i Thargedau Adennill Awdurdod Lleol yn gynhwysfawr ac yn rhoi cyfle i adlewyrchu pryderon ei randdeiliaid. Yn sgil hynny, mae cyfnod yr ymgynghoriad wedi cael ei ymestyn ac ni fydd y Canllawiau terfynol yn cael eu cyhoeddi nes bydd trefn Targedau Adennill Awdurdod Lleol wedi hen ddechrau. Disgwylir y bydd angen newid ambell beth yn y Canllawiau terfynol yn dilyn yr ymgynghoriad ac y byddant yn cael eu cyhoeddi yn ddiweddarach yn 2013.

TRAFODAETH:

Mae cwmpas y canllawiau drafft terfynol wedi'i leihau o'i gymharu â chymharach y broses ymgynghori. Roedd drafftiau cynharach y canllawiau yn cynnwys meysydd y mae Llywodraeth Cymru'n credu bod angen rhagor o waith ac esboniad arnynt erbyn hyn, cyn iddynt gael eu cynnwys yn y canllawiau.

Mae angen rhagor o esboniad ar y meysydd canlynol:

- Defnyddio meini prawf Diwedd Oes Gwastraff i ddiffinio cynhyrchion, deunyddiau a sylweddau.
- Canlyniadau dad-ddyfrio gweddillion treuliad anaerobig a gynhyrchir drwy broses treulio anaerobig, gan gynnwys mesur cyfraddau adennill
- Dosraniad proses adennill ar gyfer cyfleusterau treulio anaerobig a throi gwastraff yn ynni sy'n cael deunyddiau o ffynonellau trefol a ffynonellau heb fod yn drefol.
- Ymestyn cyfnod adrodd i WasteDataFlow.

Wrth gael esboniad am y materion hyn, bydd hyn yn arwain at ragor o ystyriaeth, a deddfwriaeth o bosib.

Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw:

Sefydliad (lle bo'n berthnasol):

E-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Cwestiwn – A oes angen newid unrhyw beth yn y Canllawiau drafft terfynol? Os oes, pa newidiadau a ddylid eu gwneud, a pham?

Mae'n bosibl y bydd ymatebion i ymgynghoriad yn cael eu cyhoeddi - ar y rhyngwrwyd neu mewn adroddiad. Pe bai'n well gennych i'ch ymateb gael ei gadw'n gyfrinachol, ticiwch y blwch:

☐